Nodiadau canllaw ar lenwi ffurflen N161 – Hysbysiad Apelydd (pob apêl ac eithrio apeliadau ar y trac hawliadau bychain neu apeliadau i Adran Deulu'r Uchel Lys)

Sylwch y dylid defnyddio ffurflen **N161** ar gyfer achosion ar y trac cyflym a'r amldrac ac apeliadau statudol o dribiwnlysoedd a chyrff allanol eraill yn unig. Dylid defnyddio ffurflen **N164 – Hysbysiad Apelydd (y trac hawliadau bychain yn unig)** ar gyfer apeliadau achosion ar y trac hawliadau bychain. Dylid defnyddio ffurflen **FP161 – Hysbysiad Apelydd (Apeliadau i Adran Deulu'r Uchel Lys) ar gyfer apeliadau i Adran Deulu'r Uchel Lys.**

Mae taflen rad ac am ddim '**EX340 – Yr wyf eisiau apelio'** sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch apelio yn neu i'r Uchel Lys neu lys sirol ar gael o:

- unrhyw ganolfan wrandawiadau llys sirol,
- http://hmctsformfinder.justice.gov.uk; neu
- Clerc y Rhestrau, Swyddfa Gyffredinol/Swyddfa Apeliadau yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain, WC2A 2LL.

 © Hawlfraint y Goron 2023

Bydd y daflen hefyd yn egluro ystyr rhai o'r termau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y canllaw hwn.

Mae gwybodaeth am apelio i'r Llys Apêl ar gael gan Gofrestrfa'r Swyddfa Apeliadau Sifil, Ystafell E308, Y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain WC2A 2LL, neu ar wefan y llysoedd (http://hmctsformfinder.justice.gov.uk).

- Gall staff y llys eich helpu i lenwi'r hysbysiad apelydd a rhoi gwybod i chi am weithdrefnau, ond allant roi cyngor cyfreithiol i chi - er enghraifft a ddylech chi apelio, neu a fydd eich apêl yn llwyddiannus ai peidio.
- Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch ynghylch gwneud apêl, dylech gysylltu â chynrychiolydd cyfreithiol neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar unwaith.
- Os oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol, yna dylent lenwi'r ffurflen hon ar eich rhan.

Pwysig - cyfyngiadau amser ar gyfer cychwyn (ffeilio) eich apêl.

Dim ond cyfnod byr o amser sydd gennych i ffeilio'ch hysbysiad apelydd yn y llys apêl, felly rhaid i chi weithredu'n gyflym.

Bydd y daflen '**EX340 – Yr wyf eisiau apelio'** yn dweud wrthych pa lys yw'r llys apêl priodol yn eich achos chi.

Rhaid i chi ffeilio eich hysbysiad apelydd:-

- o fewn y terfyn amser a bennwyd gan y barnwr a wnaeth y gorchymyn yr ydych chi'n apelio yn ei erbyn; neu
- pan na osodwyd unrhyw derfyn amser gan y barnwr hwnnw, **cyn pen 21 diwrnod** wedi'r dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn.

Terfynau amser sy'n berthnasol yn y Llys Apêl mewn mathau penodol o apêl

Mae yna sawl terfyn amser gwahanol yn berthnasol yn y Llys Apêl, a'r byrraf o'r rhain yw 7 diwrnod. Mae **Ffurflen 207** yn nodi beth yw'r cyfyngiadau amser ar gyfer ffeilio Hysbysiad Apelydd yn y Llys Apêl. Gallwch gael copi o'r ffurflen o http://www.justice.gov.uk/courts/rcj-rolls-building/court-of-appeal/civil-division

Os ydych angen mwy o amser na'r hyn a ganiateir ar gyfer ffeilio'ch hysbysiad apelydd, rhaid i chi wneud cais am estyniad amser yn yr hysbysiad ei hun. (Gweler y canllawiau ar gyfer Adran 10 ar dudalen 11).

Nodiadau cyffredinol ar lenwi'r hysbysiad

Isod, fe welwch nodiadau i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen. Dylech ddarllen y nodiadau sy'n berthnasol i bob adran yn ofalus cyn dechrau llenwi'r adran benodol honno.

Os oes angen mwy o le arnoch i roi'ch atebion, defnyddiwch ddalen arall o bapur, gan nodi'n glir at ba adran y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ati. Ysgrifennwch rif yr hawliad neu'r achos arni a'i rhoi ynghlwm â'r hysbysiad.

Os nad yw'r holl ddogfennau neu'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen ar gyfer eich apêl gennych, peidiwch â gadael i hyn eich atal rhag anfon neu fynd â'r ffurflen i'r llys apêl o fewn y terfyn amser cywir.

Llenwch y ffurflen mor gyflawn â phosibl a darparwch y dogfennau sydd gennych. Bydd y nodiadau ar gyfer Adran 12 yn egluro mwy am pa ddogfennau y bydd angen ichi ffeilio gyda'r hysbysiad apelydd (gweler tudalennau 12-13)

Adran 1: Manylion yr hawliad neu'r achos yr ydych yn apelio yn ei erbyn

Rhowch rif yr hawliad neu'r achos yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn. Mae'n ofynnol i chi ddarparu enw llawn bob parti a nodi pwy oeddynt e.e. yr hawlydd, y ceisydd neu'r deisebydd, y diffynnydd neu'r atebydd drwy roi tic yn y blwch priodol. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon a mwy yn y gorchymyn neu'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

Rhowch eich enw llawn (yr apelydd) a'r cyfeiriad ble'r hoffech i'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r apêl gael eu hanfon. Dylech gynnwys eich manylion cyswllt, gan gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad e-bost os oes gennych un.

Bydd angen i chi hefyd gynnwys y manylion uchod ar gyfer yr atebydd i alluogi'r llys i anfon gohebiaeth a manylion eraill at yr atebydd. Diffinnir atebydd fel unigolyn a oedd yn barti i'r achos mewn llys is ac yr effeithir arnynt gan yr apêl yr ydych yn ei gwneud. Os oes mwy nag un atebydd, rhestrwch eu henwau, eu cyfeiriadau a'u manylion cyswllt ar ddalen o bapur ar wahân a thiciwch y blwch 'manylion partïon ychwanegol' i nodi eich bod wedi gwneud hynny. Ysgrifennwch rif yr hawliad arni a'i rhoi ynghlwm â'ch hysbysiad.

Adran 2: Manylion yr apêl

Gallwch ddod o hyd i'r rhan fwyaf o'r wybodaeth y byddwch ei hangen i lenwi'r adran hon yn y gorchymyn neu'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

Rhowch enw'r llys neu'r tribiwnlys lle gwnaed y gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

Rhowch enw'r Barnwr a wnaeth y gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn a nodwch statws y Barnwr drwy roi tic yn y blwch priodol.

Rhowch ddyddiad y penderfyniad yr ydych chi'n dymuno apelio yn ei erbyn. Gan amlaf bydd y dyddiad hwn wedi'i nodi ar waelod y gorchymyn neu'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

Adran 3: Cynrychiolaeth gyfreithiol

Cadarnhewch a oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol, ac os oes, rhowch enw a manylion cyswllt eich cynrychiolydd cyfreithiol.

Nodwch a ydych yn cael cymorth cyfreithiol ai peidio.

Cadarnhewch a oes gan yr atebydd gynrychiolydd cyfreithiol ac os oes, nodwch ei enw a'i fanylion cyswllt.

Adran 4: Caniatâd i apelio

Oni bai bod y llys neu'r tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn wedi rhoi caniatâd ichi apelio, bydd angen i chi wneud cais am ganiatâd i apelio yn y llys apêl (oni bai bod un o'r esemptiadau dros y dudalen yn berthnasol). Os ydych yn apelio i'r Llys Apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed yn yr Uwch Dribiwnlys, mae'n **rhaid** i chi yn gyntaf wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Llys Apêl.

Os ydych chi'n dymuno gwneud **ail apêl,** dim ond os bydd y Llys Apêl yn Llundain yn rhoi caniatâd i chi y gallwch wneud hynny. Mae'n rhaid i chi wneud eich cais am ganiatâd i apelio i'r llys hwnnw. Eithriad fydd rhoi caniatâd i wneud ail apêl.

Dylech fod yn ymwybodol na roddir caniatâd oni bai pan fo'r llys yn ystyried bod gan eich apêl obaith gwirioneddol o lwyddo. Os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad rheoli achos bydd y llys hefyd yn ystyried:

- a yw'r mater yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau costau apêl;
- yr effaith gyffredinol ar yr amserlen rheoli achos, e.e. a yw colli dyddiad y treial yn fwy arwyddocaol na'r pwynt trefniadol yr ydych yn dymuno apelio yn ei gylch; ac
- a fyddai hi'n fwy cyfleus ymdrin â'ch pwynt yn y treial.

Nid oes angen caniatâd arnoch os yw'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn yn un o'r canlynol:

- gorchymyn traddodi;
- gorchymyn yn gwrthod caniatáu habeas corpus;
- gorchymyn llety diogel dan Adran 25 Deddf Plant 1989, neu
- dan adran 119 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Wrth roi caniatâd i apelio gall y llys, mewn amgylchiadau eithriadol, gyfarwyddo y dylid cyfeirio'ch apêl at y Llys Apêl os yw'n ystyried ei bod yn codi pwynt pwysig iawn o egwyddor neu ymarfer, neu fod rhyw reswm pwysig arall i'r Llys Apêl ei gwrando. Pan fo'r llys yn rhoi'r cyfarwyddyd hwn, fe'i nodir ar ffurflen **N460 Rhesymau dros ganiatáu neu wrthod caniatâd i apelio (gan gynnwys cyfeirio i'r Llys Apêl (Adran Sifil), a gwybodaeth ynghylch llwybrau apelio neu N460HC Rhesymau dros ganiatáu neu wrthod caniatâd i apelio a gwybodaeth ynghylch llwybrau apelio** a anfonir atoch gan y llys.

Adran 5: Gwybodaeth arall sydd ei hangen ar gyfer yr apêl

Mae'n ofynnol i chi ddatgan enw'r barnwr a dyddiad y gorchymyn yr ydych chi'n dymuno apelio yn ei erbyn. Os mai dim ond yn erbyn rhan o orchymyn neu benderfyniad tribiwnlys y mae eich apêl, rhaid i chi ysgrifennu'r rhan honno (neu'r rhannau hynny) o'r gorchymyn yn y blwch a ddarperir.

Adran 6 a 7: Seiliau'r apêl a dadleuon i'w cefnogi

Rhaid i apêl fod yn seiliedig ar resymau perthnasol (rhesymau dros apelio). Bydd llys apêl ond yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad a oedd naill ai:-

- yn anghywir; neu
- yn anghyfiawn oherwydd anghysondeb trefniadol neu anghysondeb arall yn y llys is.

Bydd y llys apêl yn annhebygol o wyrdroi penderfyniad lle na fyddai hynny'n gwneud fawr ddim gwir wahaniaeth i ganlyniad yr achos; neu y byddai'r apêl yn golygu ail edrych ar yr ymchwiliad ffeithiol a wnaed gan y llys is.

Nodwch yn fyr ac ar ddalen ar wahân pam eich bod yn meddwl bod penderfyniad y barnwr yn anghywir neu'n anghyfiawn. Os yw'n bosibl, rhestrwch eich rhesymau mewn paragraffau byr ac eglur wedi eu rhifo, a nodwch eich bod wedi gwneud hyn drwy roi tic yn y blwch priodol.

Cofiwch **na chewch** gynnwys unrhyw seiliau dros apelio sy'n dibynnu ar dystiolaeth newydd, hynny yw, tystiolaeth sydd wedi dod i law ers i'r gorchymyn gael ei wneud. Ni chewch gyflwyno tystiolaeth newydd yn eich apêl heb gael caniatâd y llys apêl yn gyntaf. Gallwch wneud cais am ganiatâd i ddibynnu ar dystiolaeth newydd yn yr hysbysiad apelydd (gweler y nodiadau i Adran 10 ar dudalen 11). Fodd bynnag, bydd rhaid ichi roi rhesymau pam na gyflwynwyd y dystiolaeth newydd yn erbyn y llys gwreiddiol.

Dylid ffeilio a chyflwyno'r ddadl fframwaith ar wahân i'r atebydd/atebwyr gyda'ch hysbysiad wedi'i gwblhau os ydych yn apelio i'r Llys Apêl.

Os ydych yn apelio i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys, os oes angen, dylid ffeilio a chyflwyno'r ddadl fframwaith ar wahân i'r atebydd/atebwyr gyda'ch hysbysiad wedi'i gwblhau neu, os nad ydych yn gallu cwblhau eich dadl fframwaith mewn pryd, dim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl ffeilio'ch hysbysiad. Nodwch drwy roi tic yn y blwch perthnasol a ydych yn atodi'r ddadl fframwaith i'r hysbysiad apelydd hwn neu a ydych yn bwriadu ei anfon ar wahân cyn pen 14 diwrnod wedi ffeilio'r hysbysiad apelydd gyda'r llys.

Dylai dadleuon fframwaith gynnwys rhestr wedi'i rhifo o'r pwyntiau yr ydych yn bwriadu dibynnu arnynt yn y gwrandawiad. Ni ddylid cymryd ond brawddeg neu ddwy i ddatgan pob pwynt. Cyfeiriwch ym mhob pwynt at unrhyw ddogfen yr ydych yn ei ffeilio gyda'ch hysbysiad apelydd sy'n cefnogi'r ddadl honno (gweler Adran 12 ar ddogfennau).

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Ceisiwch ystyried pa wybodaeth arall allai fod yn ddefnyddiol i'r llys apêl. Er enghraifft, gallai'r llys ei gael yn ddefnyddiol i fod â rhestr o bobl sydd â rhan yn yr achos, esboniad o dermau technegol a ddefnyddir yn y papurau, neu restr o ddigwyddiadau yn nhrefn dyddiadau (cronoleg). Os ydych chi'n darparu unrhyw rai o'r rhain, dylent fod ar ddalen o bapur ar wahân wedi'u gosod ynghlwm wrth eich hysbysiad ac wedi eu marcio gyda rhif yr achos neu rif yr hawliad ac enwau'r partïon.

Adran 8: Hawliadau Confensiwn Aarhus (ceisiadau a wnaed dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990)

Mae Confensiwn Aarhus yn rhoi hawliau i aelodau'r cyhoedd o ran mynediad at wybodaeth, cyfranogiad y cyhoedd a mynediad at gyfiawnder, ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd lleol, cenedlaethol a thrawsffiniol. Mae'n canolbwyntio ar ryngweithiadau rhwng y cyhoedd ac awdurdodau cyhoeddus. Nodwch a ydych yn ceisio diogelu costau yn CPR 45.

Adran 9: Beth ydych chi'n gofyn i'r llys apêl ei wneud?

Nodwch drwy roi tic yn y blwch perthnasol a ydych yn gofyn i'r llys apêl roi'r gorchymyn o'r naill du neu amrywio'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn, neu a hoffech i'r llys orchymyn treial newydd.

Adran 10: Ceisiadau eraill

Cwblhewch yr adran hon dim ond os ydych chi'n gofyn am orchmynion sy'n ychwanegol i'r rhai y gofynnwyd amdanynt yn Adrannau 4 ac 8.

Rhaid i unrhyw gais am estyniad amser ar gyfer apelio gael ei wneud yn yr hysbysiad apêl ei hun yn Adran 10, Rhan B. Dylech ddatgan y rhesymau dros yr oedi a'r camau a gymerwyd hyd at amser ffeilio'r hysbysiad yn Adran 11. Gweler tudalen 2 am wybodaeth ar gyfyngiadau amser.

Efallai y byddwch am wneud mwy o geisiadau i'r llys apêl mewn perthynas â'ch apêl. Gellir gwneud unrhyw geisiadau eraill naill ai yn yr hysbysiad apelydd neu mewn rhybudd cyflwyno cais ar wahân (Ffurflen N244 – Rhybudd Cyflwyno Cais). Gallwch gael y ffurflen hon gan y llys neu gallwch lawrlwytho copi ohoni o http://hmctsformfinder.justice.gov.uk. Efallai y bydd raid i chi dalu ffioedd ychwanegol os bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei ffeilio ar ôl ichi ffeilio eich hysbysiad apelydd.

Adran 11: Tystiolaeth i gefnogi

Nodwch yma unrhyw wybodaeth sydd gennych i gefnogi eich cais dan Adran 10.

Dylech lofnodi'r datganiad gwirionedd ar waelod yr adran hon i gefnogi unrhyw dystiolaeth a ddarparwch.

Adran 12: Dogfennau ategol

Peidiwch ag oedi cyn ffeilio'ch hysbysiad apelydd yn y llys apêl. Os nad ydych wedi gallu cael gafael ar unrhyw rai o'r dogfennau a restrir isod o fewn yr amser a ganiatawyd, llenwch yr hysbysiad orau ag y gallwch, a sicrhewch eich bod yn ffeilio eich hysbysiad ar amser.

I ddangos pa ddogfennau yr ydych yn eu ffeilio gyda'r hysbysiad apêl, ticiwch y blychau priodol. Rhestrwch yn y blwch sydd dros y dudalen unrhyw ddogfennau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio ond nad ydynt ar gael eto. Nodwch y rhesymau pam nad ydych wedi gallu cael gafael ar unrhyw rai o'r dogfennau neu'r wybodaeth, a rhowch y dyddiad rydych yn disgwyl y byddant ar gael.

Lle bynnag y bo modd, dylid ffeilio'r dogfennau canlynol gyda'ch hysbysiad apelydd:-

Yn y Llys Sirol neu'r Uchel Lys:

- tri chopi o'r hysbysiad apelydd i'r llys apêl, a thri chopi o seiliau'r apêl;
- un copi ychwanegol o'r hysbysiad apelydd a seiliau'r apêl ar gyfer pob atebydd;
- un copi wedi'i selio (wedi'i stampio gan y llys) o'r gorchymyn yr ydych chi'n apelio yn ei erbyn;
- copi o unrhyw orchymyn yn rhoi neu'n gwrthod

caniatâd i apelio; ynghyd â chopi o resymau'r barnwr dros roi neu wrthod caniatâd i apelio; a

- copi o'r dystysgrif Cymorth Cyfreithiol Sifil (os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol).

Yn y Llys Apêl:

- un copi o'r hysbysiad apelydd ac un copi o seiliau'r apêl ar ddalen ar wahân;
- un copi wedi'i selio (wedi'i stampio gan y llys) o'r gorchymyn neu benderfyniad y tribiwnlys yr ydych chi'n apelio yn ei erbyn;
- copi o unrhyw orchymyn yn rhoi neu'n gwrthod caniatâd i apelio, ynghyd â chopi o resymau'r barnwr dros roi neu wrthod caniatâd i apelio;
- un copi o unrhyw ddatganiadau gan dystion neu affidafidau i gefnogi unrhyw gais sydd wedi'i gynnwys yn yr hysbysiad apelydd;
- pan wnaethpwyd penderfyniad y llys is ei hun yn dilyn apêl, copi o'r gorchymyn cyntaf, y rhesymau a roddwyd gan y barnwr a wnaeth y penderfyniad, a'r hysbysiad apelydd o'r apêl yn erbyn y gorchymyn hwnnw;
- mewn hawliad am adolygiad barnwrol neu apêl statudol, copi o'r penderfyniad gwreiddiol a oedd yn destun y cais i'r llys is;
- un copi o'r ddadl fframwaith i gefnogi'r apêl neu gais am ganiatâd i apelio; a

- chopi o drawsgrifiad cymeradwy y dyfarniad. (os oes ganddo/ganddi gynrychiolydd cyfreithiol)

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ffeilio eich hysbysiad a'ch dogfennau wedi'u cwblhau

Anfonwch neu ewch â'r hysbysiad apelydd a chopïau o'r holl ddogfennau ategol i swyddfa'r llys apêl gyda'r ffi briodol. Gall y llys ddweud wrthych faint fydd hyn. Bydd y llys yn selio'r hysbysiadau (stampio'r hysbysiad gyda sêl y llys).

Cyflwyno eich hysbysiad apelydd

Mae'r gofynion cyflwyno'n wahanol, yn ddibynnol ar ba un ai a ydych yn ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y llys sirol, yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl.

Yn y Llys Sirol a'r Uchel Lys

Mae angen ichi gyflwyno copi wedi'i selio (wedi'i stampio gan y llys) o'ch hysbysiad apelydd ar bob atebydd i'ch apêl, a ffeilio tystysgrif cyflwyno yn y llys mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl wedi hynny.

Yn y Llys Apêl

Mae angen ichi gyflwyno copi wedi'i selio (wedi'i stampio gan y llys) o'ch hysbysiad apelydd ar bob atebydd mor fuan ag sy'n ymarferol bosib ond ddim hwyrach na saith niwrnod ar ôl

iddo gael ei ffeilio yn y llys. Gofynnir ichi gadarnhau ar ffurflen a ddarperir gan y llys eich bod wedi cyflwyno'r rhain ar yr atebydd/atebwyr.

Paratoi a ffeilio eich bwndel o ddogfennau

Yn y Llys Sirol a'r Uchel Lys

Os ydych yn ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y Llys Sirol neu'r Uchel Lys, dylid ffeilio eich bwndel apêl mor fuan ag sy'n ymarferol bosib a beth bynnag o fewn 35 niwrnod ar ôl ffeilio'r hysbysiad apelydd.

Rhaid i'ch bwndel apêl gynnwys:

- copi o'ch hysbysiad apelydd;
- copi o unrhyw hysbysiad atebydd;
- copi o unrhyw ddadl fframwaith sydd wedi'i ffeilio gan naill ai chi eich hun neu'r atebydd;
- copi o'r gorchymyn sy'n destun yr apêl;
- copi o unrhyw orchymyn a wnaethpwyd gan y llys is yn rhoi neu'n gwrthod caniatâd i apelio, ynghyd â rhesymau'r barnwr;
- copi o drawsgrifiad cymeradwy y penderfyniad neu gofnod arall o'r rhesymau (os yw'n briodol;

Mae'n bosib y bydd eich bwndel apêl yn cynnwys copïau o unrhyw un o'r dogfennau canlynol hefyd, ond dim ond os

ydynt yn berthnasol i'r apêl:

- datganiadau achos;
- rhybuddion cyflwyno cais;
- gorchmynion eraill a wnaethpwyd yn yr achos;
- cronoleg o'r digwyddiadau perthnasol;
- datganiadau tystion i gefnogi unrhyw gais a wnaethpwyd yn eich hysbysiad apelydd;
- datganiadau tystion eraill;
- unrhyw ddogfennau eraill y credwch fyddai'n cynorthwyo'r llys.

Yn y Llys Apêl

Os ydych yn ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y Llys Apêl a'ch bod yn gwneud cais am ganiatâd i apelio, rhaid ffeilio bwndel o fewn 14 diwrnod i ffeilio'r hysbysiad apelydd. Bydd y llys yn darparu mynegai ar gyfer y bwndel craidd yn rhestru'r holl ddogfennau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y bwndel caniatâd. Os nad ydych angen caniatâd i apelio neu os rhoddwyd caniatâd gan y llys is, fe'ch hysbysir drwy lythyr gan swyddfa'r llys o'r dyddiad ar gyfer ffeilio eich bwndel apêl a'r dogfennau sydd raid eu cynnwys ynddo. Cyfeiriwch at **Ffurflen 204** 'Sut i baratoi bwndel apêl yn y Llys Apêl'. Gallwch gael copi o http://www.justice.gov.uk/courts/rcj-rolls-building/court-of-appeal/civil-division

Cyflwyno eich bwndel dogfennau

Mae'r gofynion cyflwyno'n wahanol, yn ddibynnol ar ba un ai a ydych wedi ffeilio eich hysbysiad apelydd yn y Llys Sirol, yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl.

Yn y Llys Sirol a'r Uchel Lys

- Os ydych eisoes wedi cael caniatâd i apelio neu os nad oes arnoch angen caniatâd, rhaid cyflwyno'r bwndel ar yr atebydd/atebwyr a ffeilio'r bwndel yn y llys ar yr un pryd; neu
- Os ydych wedi gofyn am ganiatâd i apelio yn eich hysbysiad apelydd, ac y rhoddwyd caniatâd, rhaid cyflwyno'r bwndel mor fuan â phosib ar ôl cael yr hysbysiad, a beth bynnag o fewn 14 niwrnod ar ôl cael caniatâd i apelio; neu
- Pan fydd y llys apêl yn cyfarwyddo fod rhaid gwrando'r apêl ar unwaith wedi'r cais am ganiatâd i apelio, os rhoddwyd caniatâd, rhaid cyflwyno'r bwndel mor fuan ag sy'n ymarferol bosib wedi hynny, a beth bynnag o fewn 14 niwrnod ar ôl cael dyddiad y gwrandawiad.

Yn y Llys Apêl

- Os ydych yn ceisio caniatâd i apelio, rhaid cyflwyno copi o fynegai'r bwndel craidd a chopi o'r mynegai ar gyfer unrhyw fwndel atodol am ganiatâd i apelio ar unrhyw atebydd ar yr un pryd a ffeilio'r bwndeli yn y llys (o fewn 14 diwrnod o ffeilio'r hysbysiad apelydd).

- Os rhoddwyd caniatâd i apelio gan y llys is neu gan y Llys Apêl, bydd swyddfa'r llys yn rhoi cyfarwyddyd ar ffurf lythyr ynghylch paratoi a chyflwyno'r bwndel apêl